O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 352 (Cy.54)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

Gwnaed *11 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *18 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt*"* ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 18 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n barhaol;